# Hoffech chi weithio gyda ni ar brosiectau allweddol i lywio cyfeiriad celfyddydau Cymru drwy gyfleoedd cyflogedig fel Gweithiwr Cyswllt Cyngor Celfyddydau Cymru?

Fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo lleisiau amrywiol yn ein gwaith, hoffem glywed gan ystod o bobl o bob cymuned. Rhowch wybod inni os hoffech wneud gwaith cyflogedig gyda ni fel Gweithiwr Cyswllt, gan gynnig cyngor ar ein rhaglenni gwaith.

**12pm ar 22 Medi 2021 yw'r dyddiad cau i fynegi diddordeb.**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Arty Parky, Parc Bedwellty, Celf ar y Blaen (llun: Ryan Davies)

**Ydych chi'n gwerthfawrogi'r effaith y gall y celfyddydau a chreadigrwydd ei chael ar unigolion a chymunedau? Allwch chi gynnig golwg newydd ar ein dulliau o weithio a sut rydym ni'n gwerthuso'r ceisiadau am grant? Allwch chi ein helpu i ailffocysu a chysylltu ag ystod ehangach o bobl? Allwch chi roi eich sgiliau ar waith i feddwl yn greadigol ac mewn ffordd ddadansoddol ac ymarferol am ein prosiectau? Os gallwch, hoffem glywed gennych.**

Mynegwch eich diddordeb os hoffech gael eich ystyried am gyfleoedd cyflogedig fel Gweithiwr Cyswllt. Rydym ni am gael cronfa eang o **unigolion talentog ac ysbrydoledig** i wneud gwaith sy'n benodol i'w **gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad personol.**

## Pam y gofynnnwn ichi fynegi diddordeb?

Mae'n rhan o gyfnod newydd yn ein cynllun Gweithwyr Cyswllt. Mae'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldeb yn ein cymdeithas. Cafodd rhai unigolion a chymunedau eu heffeithio'n waeth nag eraill. Felly rydym ni am ehangu a chynyddu nifer y bobl rydym ni'n eu cyflogi fel Gweithwyr Cyswllt.

# "Nid ar ei phen ei hun mae Cymru'n wynebu her y newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb a'r pandemig. Rydym ni'n rhan o ddynoliaeth fyd-eang a rhaid inni weithredu felly."

'Nid yw Moroedd Mwyn yn creu Morwyr Medrus' , Watch-Africa Cymru , Chwefror 2021.

## Beth fydd gwaith y Gweithwyr Cyswllt?

**Os cewch eich derbyn fel Gweithiwr Cyswllt, byddwch yn rhan o gronfa o bobl rydym ni'n cynnig cyfleoedd â thâl iddynt fel Gweithwyr Cyswllt am ddarnau o waith sy'n berthnasol i'w harbenigedd a'u profiad.**

Os cewch eich derbyn fel Gweithiwr Cyswllt, byddwch yn rhan o gronfa o bobl rydym ni'n cynnig cyfleoedd â thâl iddynt fel Gweithwyr Cyswllt am ddarnau o waith sy'n berthnasol i'w harbenigedd a'u profiad.

Gan ddefnyddio eu profiad ymarferol a phersonol o greadigrwydd yn ein cymunedau, bydd Gweithwyr Cyswllt yn cynnig cyngor am ein blaenoriaethau gan gynnwys:

- cynllunio strategol
- prosiectau a rhaglenni penodol
- cynllunio grantiau
- asesu ceisiadau grant
- prosesau ymgeisio

Bydd pob cyfle yn benodol i'r Gweithiwr Cyswllt.

Rydym ni'n chwilio am ystod o fewnbwn gan bobl sydd â phrofiad personol o wahanol gymunedau a/neu arbenigedd penodol am y celfyddydau a ariannwn neu am gelfyddydau cyfunol a rhai sy'n datblygu.

Yn y pen draw, rydym ni am sicrhau bod amrywiaeth ein cymunedau yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn ein gwaith o gynllunio ac asesu ein mentrau a'n harian a'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Rydym ni'n pwysleisio ein hymrwymiad i weithio gydag unigolion a grwpiau ar draws pob nodwedd warchodedig. Byddem felly'n croesawu ceisiadau gan bobl F/fyddar, anabl, niwroamrywiol, LHDT+, Gymraeg (a dysgwyr) ac sy'n amrywiol yn ethnig a diwylliannol.

# Â diddordeb?

- Mae'n hawdd - cyflwynwch eich Mynegiant o Ddiddordeb ar-lein.
- Gallwch gyflwyno dogfen ysgrifenedig neu fideo byr i amlinellu sut y gall eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad wneud gwahaniaeth.
- Os derbyniwn eich Mynegiant, cysylltwn â chi am gyfleoedd posibl sy'n berthnasol i'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth oddi wrthych. Nid yw derbyn eich Mynegiant yn gwarantu gwaith fel Gweithiwr Cyswllt, ond byddwch yn rhan o gronfa o bobl y byddwn yn ceisio rhoi gwaith iddynt yn y 12 mis nesaf.

Dysgwch ragor am lunio Mynegiant a sut y gweithiwn gyda Chydweithwyr yma.

## Meini prawf llwyddo

Aseswn y wybodaeth yn y ffurflen a'r cyflwyniad ategol yn ôl y **meini prawf yma**:

- Eich bod yn 18 oed neu'n hŷn
- Bod eich statws yn caniatáu ichi ymgymryd â gwaith cyflogedig yn y Deyrnas Unedig
- Nad ydych yn aelod presennol o'n Cyngor
- Eich bod wedi dangos tystiolaeth o arbenigedd mewn gweithio gyda grwpiau penodol neu eich profiad personol a fydd o gymorth inni gyflawni ein blaenoriaethau

a/neu

- Eich bod wedi dangos tystiolaeth o'ch profiad o weithio yn y celfyddydau a'r meysydd creadigol rydych yn arbenigo ynddynt
- Eich bod wedi dangos tystiolaeth o'ch sgiliau ymarferol a phroffesiynol a sut y gallent ein helpu

# Gallwch ymgeisio nawr!

**12:00pm ar ddydd Mercher 22 Medi 2021 yw'r dyddiad cau.**

Helpwch ni i ledaenu'r gair a galluogi rhagor o bobl amrywiol i weithio gyda ni. Anfonwch hyn at bawb rydych chi'n meddwl y dylem fod yn gweithio gyda nhw.

---

Bydd gwybodaeth ar gael mewn print bras, hawdd ei darllen, braille, sain ac Arwyddeg ac ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Rydym ni'n gweithredu Polisi Recriwtio Cyfle Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government